Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar:

# Tŷ Coryton

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Mae'n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru adrodd ar b'un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni, a, lle na chaiff y rhain eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol,* Ebrill 2004; a
- Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
  - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
  - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth yr ysgol; a
  - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o'r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2014**

## Cyd-destun

Mae Tŷ Coryton yn darparu gwasanaeth dydd a phreswyl integredig ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng wyth ac 19 oed sydd wedi cael diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Mae 15 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan bob un o'r disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion presennol wedi'u lleoli gan awdurdodau yng Nghymru.

Lleolir yr ysgol mewn plasty mawr ar gyrion Caerdydd. Mae naw disgybl yn byw yng nghartref plant Tŷ Coryton sydd ag adeilad pwrpasol ar wahân ar y safle.

Cwmni cyfyngedig yw'r perchennog, ac mae ei wasanaethau'n cynnwys dwy ysgol a choleg arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Cafodd yr ysgol ei chofrestru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel ysgol annibynnol yn Ebrill 2008.

Cynhaliodd Estyn arolygiad llawn o Ysgol Tŷ Coryton yn Chwefror 2013. Ers hynny, bu gostyngiad yn nifer y disgyblion. O ganlyniad, mae nifer y dosbarthiadau wedi lleihau o bump i bedwar.

Mae'r pennaeth addysg cyfredol wedi bod yn ei swydd ers Rhagfyr 2013.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn darparu cyfeiriad clir iawn i'r ysgol;
- mae ystod eang o bolisïau cynhwysfawr gan yr ysgol, y mae'n eu cymhwyso'n dda;
- mae pob un o'r staff yn gweithio'n dda iawn â'i gilydd i gefnogi anghenion cymhleth y disgyblion;
- mae'r cynllunio yn fanwl iawn ac yn ystyried anghenion disgyblion unigol;
- drwy asesiad effeithiol iawn o'r prosesau dysgu, mae pob un o'r disgyblion yn gallu cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain;
- mae staff a disgyblion yn defnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu yn llwyddiannus iawn ar draws yr ysgol; ac
- mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- mae'r ysgol wedi cyflwyno offeryn asesu newydd yn ddiweddar, sy'n ystyried y camau bach iawn a wneir gan ddisgyblion.  Fodd bynnag, mae'n dal yn ddyddiau cynnar o ran defnyddio'r data hwn i olrhain cynnydd a llywio'r cynllunio; ac
- mae ychydig o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn profiad gwaith defnyddiol, er enghraifft mewn cartref cŵn a fferm leol.  Cyfyngedig yn gyffredinol yw'r cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith, fodd bynnag.

## Argymhellion

A1  Datblygu ymhellach y defnydd o ddata i olrhain y camau cynnydd bach iawn a wneir gan ddisgyblion ac i lywio'r cynllunio

A2  Cynyddu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith

## Cynnydd wrth fynd i'r afael a'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ennill cymwysterau mewn cyrsiau achrededig**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Erbyn hyn, mae'r ysgol yn cynnig ystod o gymwysterau achrededig, yn cynnwys y Cynghrair Asesu a Chymwysterau (AQA), Agored Cymru a Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu. Yn 2012-2013, cyflawnodd disgyblion gyfanswm o 93 o achrediadau. Llwyddodd yr holl ddisgyblion cyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4 ac ôl-16 i gyflawni un cymhwyster o leiaf. Mae'r ysgol wedi cyflwyno cyfarfodydd cynllunio achrediadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael cynnig cymwysterau priodol yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd.

**Argymhelliad 2: Mireinio gweithdrefnau asesu ymhellach i roi mwy o ystyriaeth i'r camau bach yng nghynnydd pob un o'r disgyblion a darparu mwy o wybodaeth am gynnydd disgyblion mwy galluog, er mwyn helpu athrawon i gynllunio**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Cyflwynodd yr ysgol offeryn asesu newydd yn ddiweddar sy'n cipio'r camau bach iawn a wneir gan bob un o'r disgyblion. Mae pob disgybl wedi'i asesu, ac mae athrawon dosbarth yn cofnodi cynnydd yn wythnosol. Mae'r ysgol wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i olrhain y cynnydd a wneir gan ddisgyblion, ac i lywio'r cynllunio.

**Argymhelliad 3: Ehangu cyfleoedd i'r holl staff arsylwi a rhannu arfer dda**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu (CCDau) yn cael cyfleoedd rheolaidd i arsylwi ei gilydd yn yr ysgol. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau da ag ysgol arall a choleg o fewn y cwmni. Mae hyn yn galluogi staff i arsylwi a rhannu arfer dda. Mae'r athrawon a'r CCDau wedi cynnal ymweliadau ag ysgolion arbennig a gynhelir ac ysgolion arbennig annibynnol ar draws nifer o awdurdodau. Mae'r ysgol wedi ymuno â chymuned ddysgu broffesiynol i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig.

## Cydymffurfiad â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchenogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y dull o drafod cwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestru'r ysgol hon, mae'n bosibl y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau'r arolygwyr o'r arolygiad monitro blynyddol hwn ddylanwadu ar ganfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Tŷ Coryton |
| **Rhif yr ysgol** | 681/6094 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro Ôl-A163 |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 10 ac 11 Chwefror 2014 |
| **Perchennog** | Orbis Education and Care Ltd. |
| **Staff** | 1 cyfarwyddwr gwasanaethau addysg<br>1 pennaeth addysg<br>4 athro<br>9 o gynorthwywyr cymorth dysgu<br>14 o weithwyr addysg preswyl |
| **Nifer y disgyblion** | 15 o ddisgyblion |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth dydd yn gysylltiedig â chartref plant 52 wythnos |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylder ar y sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 Diwethaf** | Chwefror 2013 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Ionawr 2012 |
| **Ymweliad diwethaf gan AGGCC** | Mai 2013 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Caroline Rees |
| **Arolygydd Tîm** | Ann Dackevych |